

Geiriau ac adenydd



national
museum
wales
amgueddfa
cymru



CA2

1 sesiwn wedi hwyluso gydag opsiwn o ddarlunio
arsylwadol

Disgrifiad byr:

Ydych chi'n hoffi ysgrifennu straeon?
Dysgwch fwy am hanes rhyfeddol go iawn
monoplan coch yr Amgueddfa, i'ch sbarduno
i ysgrifennu'ch stori eich hun.

Bydd Thomas Docherty, yr awdur a'r
darlunydd lleol o fri, yn esbonio sut gall
ffaith fod yn fan cychwyn delfrydol i chi fynd
ar eich trywydd dychmygol eich hun.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Amser a phobl
- Dylid rhoi cyfleoedd i blant:
- ddechrau adnabod gwahaniaethau
rhwng ffyrdd o fyw gwahanol gyfnodau
- defnyddio ystod o ffynonellau
hanesyddol, gan gynnwys arteffactau ac
adeiladau

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- profi gweithgareddau yn yr amgylchedd
dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- adrodd ac ailadrodd straeon, rhai gwir a
rhai dychmygol.



Amcanion dysgu:

- ymgysylltu ag arddangosfeydd yr Amgueddfa a chydymdeimlo â'u hanesion
- myfrio ar brofiadau a defnyddio'r dychmyg i greu straeon
- helpu disgyblion i drafod syniadau fel grŵp yn ogystal â datblygu rhywfaint o waith ar eu pen
eu hunain

Geiriau ac adenydd

cymryd rhan mewn profiad addysgol sy'n greadigol, yn hwyl ac yn eang ei gwmpas		Gellir addasu'r sesiwn hon ar gyfer grwpiau ag anghenion arbennig – cysylltwch â ni i drafod. Learning.waterfront@museumwales.ac.uk
Gweithgaredd	Sgiliau	
Sesiwn geiriau: arweinir y sesiwn hon gan Thomas Docherty sy'n awdur ac yn ddarlunydd llyfrau lluniau i blant. Bydd yn dechrau drwy rannu un o'i lyfrau a thrwy esbonio'r hyn sydd wedi'i ysbrydoli a sut y mae ei brofiadau wedi'i helpu i ddatblygu'r stori. Bydd yn archwilio sut y gall y disgyblion ddefnyddio profiadau go iawn i greu eu straeon cyfoethog llawn dychymyg eu hunain. Defnyddir gwrthrychau'r amgueddfa i gyffroi'r dychymyg a'u hysbrydoli. Bydd y disgyblion yn edrych ar nifer o wrthrychau'r Amgueddfa ac yn trafod sut y gallai'r rhain fod yn fan cychwyn ar gyfer stori newydd, neu ar gyfer elfen o'r stori honno. Bydd y disgyblion yn dewis eu hoff wrthrych ac yn dechrau datblygu stori ar ei sail, gan fanteisio gymaint ag y bo modd ar eu profiad a'u dychymyg nhw eu hunain. Fe'u hanogir hefyd i greu darluniau i gyd-fynd â'u stori lle bynnag y bydd hynny'n briodol yn eu barn nhw. Daw'r sesiwn i ben drwy rannu'r straeon a'r lluniau.	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd - gwrando ar syniadau pobl eraill - meddwl yn greadigol a dychmygus Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - trefnu a chyflwyno ysgrifennu dychmygus a ffeithiol mewn gwahanol ffyrdd - gwrando ar amrywiaeth o straeon	Llythrennedd Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Agwedd: cydweithio a thrafod. Ysgrifennu: trefnu syniadau a gwybodaeth.

Geiriau ac adenydd

Adnoddau y bydd eich disgyblion yn eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Gall athrawon gynllunio i dreulio'r prynhawn yn tynnu lluniau arsylwi yn yr orielau. Gellir defnyddio'r rhain yn ôl yn yr ystafell ddosbarth i ddarlunio'r straeon y mae'r disgyblion wedi dechrau eu creu. Dewch â phensilau, papur a byrddau clip gyda chi.

Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch i ysgolion:

- www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/iechydadiogelwch

Paratoi:

- Mae nodiadau ar gael i athrawon am y monoplan, y *Robin Goch*.
- Archwilio thema teithiau. Ar ba deithiau rydych chi wedi bod a sut roeddech chi'n teimlo? Pa deithiau enwog eraill rydych chi wedi clywed amdanynt a pham mae'r rhain yn enwog? Beth oedd y gwahanol foddau teithio a ddefnyddiwyd?

Gweithgareddau dilynol:

- Mae nodiadau ar gael i athrawon am y monoplan, y *Robin Goch*
- Meddwl am synau'r gwaith adeiladu a sŵn profi'r peiriant hedfan, yr injan ac am y gwahanol amgylchiadau hedfan y gallai Watkins fod wedi'u hwynebu. Defnyddio offerynnau taro a'r llais i greu darn cerddorol.
- Adrodd hanes y *Robin Goch* eto gan ddefnyddio animeiddio neu becyn meddalwedd
- Darllen straeon eraill gan yr awdur a'r darlunydd, Thomas Docherty.